# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 7

TERFYNU CONTRACTAU SAFONOL CYFNOD PENODOL

*Terfynu gan y landlord: ôl-ddyledion rhent difrifol*

### 187 Ôl-ddyledion rhent difrifol

(1) Os oes gan ddeiliad y contract o dan gontract safonol cyfnod penodol ôl-ddyledion rhent difrifol, caiff y landlord wneud hawliad meddiant ar y sail honno.

(2) Mae gan ddeiliad y contract ôl-ddyledion rhent difrifol—

(a) pan fo'r cyfnod rhentu yn wythnos, yn bythefnos neu'n bedair wythnos, os oes o leiaf wyth wythnos o rent heb ei dalu;

(b) pan fo'r cyfnod rhentu yn fis, os oes o leiaf ddau fis o rent heb ei dalu;

(c) pan fo'r cyfnod rhentu yn chwarter, os oes rhent o leiaf un chwarter dros dri mis yn hwyr;

(d) pan fo'r cyfnod rhentu yn flwyddyn, os oes o leiaf 25% o'r rhent dros dri mis yn hwyr.

(3) Mae adran 216 yn darparu bod rhaid i'r llys (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract) wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd os yw'n fodlon bod gan ddeiliad y contract—

(a) ôl-ddyledion rhent difrifol ar y diwrnod y rhoddodd y landlord yr hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract, a

(b) ôl-ddyledion rhent difrifol ar y diwrnod y mae'r llys yn gwrando'r achos ar yr hawliad meddiant.

(4) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol.

## 188 Cyfyngiadau ar adran 187

(1) Cyn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 187, rhaid i'r landlord roi hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract sy'n pennu'r sail honno.

(2) Ni chaiff y landlord wneud yr hawliad—

(a) cyn diwedd y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r landlord yn rhoi'r hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract, na

(b) ar ôl diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod hwnnw.

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract safonol cyfnod penodol.